| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad** | **10 Hydref, 2017** |
| **Teitl** | **Gorfodaeth Gwastraff** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Pwrpas** | **I sefydlu Tîm Tasg o Aelodau'r Pwyllgor i ystyried y mater a chynghori'r Pwyllgor Craffu ar y ffordd ymlaen** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn ei gyfarfod 2 Mawrth, 2017 bu i'r Cyngor fabwysiadu cynnig y cyn Aelod, y Cynghorydd Lesley Day, i ofyn i'r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd i ystyried cyflwyno cosb fel mater o flaenoriaeth i drigolion sy'n gwaredu eu sbwriel ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir; a dylai'r mater gael ei adolygu gan y Pwyllgor Craffu erbyn mis Rhagfyr, 2017.

1.2 Yn ei ystyriaeth o'r cynnig, bu i'r cyn Aelod Cabinet, Cynghorydd John Wynn Jones nodi:

- bod rhaid bod yn ofalus iawn cyn cyflwyno dirwy neu gosb gan fod yna bobl sy'n oedrannus ac yn anghofus, neu ddim yn deall y system
- bod gan y Cyngor hawl i ddirwyo pobl am roi'r deunydd anghywir yn y biniau anghywir neu am roi'r biniau allan ar y dyddiau anghywir, ond bod rhaid ystyried goblygiadau hynny i'r Cyngor
- y byddai'n awgrymu bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar ei newydd wedd yn sefydlu ymchwiliad i'r mater fel un o'i swyddogaethau cyntaf.

1.3 Mae'r Adroddiad hwn i bwrpas cael cefnogaeth y Pwyllgor Craffu i sefydlu Tim Tasg o Aelodau'r Pwyllgor i edrych i mewn i'r mater ac i bwrpas cynghori'r Pwyllgor Craffu ar y ffordd ymlaen.

**2. Y DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL**

2.1 Mae'r hawl i gymeryd camau gorfodi ar droseddau yn ymwneud â chasglu gwastraff drwy ddefnydd cynhwysyddion eisioes wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol o dan Adrannau 46, 47, 47ZA a 47ZB o'r Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990.

2.2 O dan y Ddeddf, gellir cymeryd achos a gosod dirwyon lle mae:

(i) cynhwysydd allan ar y diwrnod/amser anghywir
(ii) cynhwysydd allan yn y lleoliad anghywir
(iii) cynhwysydd allan ar y stryd drwy'r adeg
(iv) gormodedd o wastraff i'r cynhwysydd
(v) gwastraff yn y cynhwysydd anghywir.

2.3 Dylid nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar yr Adrannau hyn o'r ddeddfwriaeth i bwrpas ei gwneud yn haws i'r Awdurdodau Lleol gymeryd camau gorfodaeth yn enwedig er mwyn sicrhau ailgylchu.

## 3. CYLCH GORCHWYL Y TÎM TASG

3.1 Bydd angen sefydlu cadeirydd a chytuno ar y cylch gorchwyl, ond awgrymir fel man cychwyn bod angen Tim Tasg o 3/4 Aelod o'r Pwyllgor Craffu i ymuno â swyddogion perthnasol i ystyried y mater mewn, dywed, 3 cyfarfod e.e.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod 1: | ystyried y ddeddfwriaeth, achosion hanesyddol, trefniadau siroedd eraill |
| Cyfarfod 2: | ymweld â lleoliadau problemus/enghreifftiau ar y stryd |
| Cyfarfod 3: | ystyried y dull priodol o weithredu, pryd i weithredu a phryd i beidio. Creu adroddiad ar y canlyniad i'r Pwyllgor Craffu |

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu am ei gefnogaeth i sefydlu Tim Tasg i'r pwrpas ac i enwebu Aelodau i'r Tim Tasg.